**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Safonau

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Gwener, 7 Hydref 2022 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd Jill Burgess (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| O G James | M B Lewis | L G Thomas |
| C Rabaiotti (Cynrychiolydd Cyngor Tref/Cymuned) | | |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|
| Michaela Jones | Janet Pardue-Wood |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Aelodau Cyfetholedig(wyr): Mike Lewis a/ac Margaret Williams

---

Gan fod mwy o Gynghorwyr nag Aelodau Annibynnol yn bresennol, gadawodd y Cynghorydd M B Lewis y cyfarfod ac ni chymerodd unrhyw ran bellach yn y cyfarfod.

## 12 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 13 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2022 fel cofnod cywir.

## 14 Protocol Datrys Anghydfodau Lleol rhwng Aelodau.

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad i ystyried y Protocol Datrys Anghydfodau Lleol Aelod yn erbyn Aelod a'r newidiadau arfaethedig.

**Penderfynwyd** argymell Atodiad A i'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r cyngor i'w fabwysiadu'n ffurfiol yn amodol ar y diwygiadau canlynol:

1) Paragraff 3.1 - Ychwanegu'r Swyddog Monitro at y rheini a fydd yn cael eu hysbysu pan fo aelod am ddefnyddio'r Protocol;
2) Paragraff 3.2 - Ychwanegu'r gair "yn ffurfiol" ar ôl y gair "cyfeirio".

## 15 Protocol ar Gysylltiadau Aelodau/Swyddogion.

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad i ystyried y Protocol ar gyfer cysylltiadau Swyddogion ac Aelodau a'r newidiadau arfaethedig.

**Penderfynwyd** bydd y Pwyllgor Safonau'n argymell y Protocol diwygiedig yn Atodiad A i'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r cyngor i'w fabwysiadu'n ffurfiol yn amodol ar y diwygiad canlynol:

1) Ychwanegu troednodyn/dolen ynghylch Egwyddorion Nolan a'r Côd Swyddogion i'r adran "Parch a Chwrteisi".

## 16 Dyletswydd Arweinydd Grwp.

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad i ystyried y templed i Arweinwyr Grŵp ei gwblhau mewn perthynas â'u dyletswydd i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r templed sy'n atodedig yn Atodiad A, yn amodol ar yr ychwanegiadau canlynol:

1) Ychwanegu maes dyddiad at y ffurflen;
2) Cynnwys arweiniad ar sut i lenwi'r ffurflen ac esboniad ynghylch pam y mae angen cynnwys yr wybodaeth;
3) Adran 1. Hyfforddiant - dylid rhannu'r ymatebion er mwyn gwahaniaethu rhwng aelodau newydd ac aelodau presennol;
4) Dylid cynnwys enghreifftiau yn Adrannau 2 a 4.

## 17 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2021/2022.

Darparodd y Swyddog Monitro adroddiad "er gwybodaeth" i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Safonau am Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2021/2022.

## 18 Torri Cod Ymddygiad - Cwynion a wnaed i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC).

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad "er gwybodaeth" i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Safonau am benderfyniadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â honiadau bod Cynghorwyr Awdurdodau Lleol a Chynghorwyr Cymuned/Tref wedi torri'r Côd Ymddygiad.

## 19 Cynllun Gwaith 2022-2023.

Cyflwynodd y Swyddog Monitro gynllun gwaith 2022-2023.

**Penderfynwyd** y dylid nodi'r cynllun gwaith.

## 20 Diolch a Chroeso.

Amlinellodd y Swyddog Monitro ei fod yn debygol mai dyma oedd cyfarfod olaf y Cadeirydd presennol o’r Pwyllgor Safonau gan y byddai ei chyfnod yn y swydd yn dod i ben ar 18 Hydref ar ôl 10 mlynedd. Diolchodd y Pwyllgor i'r Cadeirydd ymadawol am y gwaith a wnaed yn ystod y cyfnod hwnnw.

Croesawodd y Swyddog Monitro'r Cynghorydd Carlo Rabaiotti hefyd, Cynrychiolydd y Cyngor Cymuned/Tref i'w gyfarfod cyntaf, yn dilyn ei benodiad ar 6 Hydref 2022.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.46 am

**Cadeirydd**